# SL(6)674 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth bwyd a gaiff ei fewnforio a gadwyd yn ôl gan y DU ar ôl ymadael â'r UE.

Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r Undeb (EUR 2019/1793) yn gwneud darpariaeth i ddiweddaru'r rhestrau o fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid ar eu mynediad i Brydain Fawr.

Mae'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau i ddarparu ar gyfer y canlynol:

- nwyddau sydd wedi'u tynnu o'r rheolaethau;
- nwyddau sy'n destun llai o reolaethau;
- nwyddau sy'n destun rhagor o reolaethau; a
- nwyddau i fod angen rheolaethau newydd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diweddaru cyflwyniad y codau a ddefnyddir i nodi'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i reolaethau, er mwyn cyd-fynd â system Tariff Integredig y DU a diwygio troednodiadau.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 1, yn yr Atodiad 1 newydd, yn Nhabl 1, mae gwahaniaeth rhwng y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg. Yn y fersiwn Saesneg, yn y cofnod ar gyfer "Uzbekistan", yn yr ail golofn, ar ôl "Dried apricots" mae'n nodi "(Food and feed)". Yn y fersiwn Gymraeg yn y man cyfatebol, fodd bynnag, ar ôl "Dried apricots" maen'n nodi "("(**Bwyd**)" sydd hefyd wedi'i fformadu yn wahanol mewn testun trwm. Hefyd, yn y fersiwn Gymraeg o'r cofnod hwnnw ar gyfer "Uzbekistan", yn yr ail golofn, mae hefyd yn nodi "(**Bwyd**)" mewn print trwm yn syth ar ôl "Apricots, otherwise prepared or preserved" er nad oes unrhyw eiriau yn ymddangos yn y fersiwn Saesneg.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 1, yn yr Atodiad 1 newydd, yn Nhabl 1, mae gwahaniaeth rhwng y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg. Yn y fersiwn Saesneg, yn y cofnod ar gyfer "Uzbekistan", mae'r talfyriad "(UZ)" ar goll yn y golofn gyntaf ar ôl enw'r wlad honno er ei fod i'w gael yn y lle cyfatebol yn y fersiwn Gymraeg. Yn hyn o beth, mae'r holl gofnodion eraill yn y Tabl hwnnw'n cynnwys y talfyriad perthnasol ar ôl enwau'r gwledydd yn y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 2, yn yr Atodiad 2 newydd, yn Nhabl 1, mae gwahaniaeth rhwng y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg. Yn y fersiwn Saesneg, yn y cofnod ar gyfer "India", yn y rhes ar gyfer "Groundnuts (peanuts), otherwise prepared or preserved", yn yr ail golofn, mae'n nodi "(***Food and feed***)". Ond yn y fersiwn Gymraeg, yn y cofnod cyfatebol, mae'r geiriau hynny'n ymddangos yn y Gymraeg fel "(***Bwyd a bwyd anifeiliaid***)" yn hytrach nag yn Saesneg. Mae'r Tabl 1 newydd yn cael ei fewnosod i ddeddfwriaeth nad oedd wedi'i gwneud yn ddwyieithog yn Saesneg ac yn Gymraeg, felly dylid nodi'r geiriau hynny yn Saesneg yn y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**19 Tachwedd 2025**